# Papur Dysgu Our Bright Future 5




## ADLEWYRCHU AR OUR BRIGHT FUTURE

## DULL GWEITHREDU'R RHAGLEN

## Pa wersi a ddysgwyd am ddull gweithredu Rhaglen Our Bright Future?

**Roedd Our Bright Future yn bartneriaeth uchelgeisiol ac arloesol a arweiniwyd gan yr Ymddiriedolaethau Natur ac a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, y cyllidwr mwyaf ar gyfer gweithgarwch cymunedol yn y DU. Roedd yn rhaglen o 31 o brosiectau a oedd yn weithredol rhwng 2016 a 2021 ac a oedd yn dod â'r sectorau amgylcheddol ac ieuenctid at ei gilydd. Roedd y prosiectau'n rhannu'r nod o rymuso pobl ifanc (11-24 oed) i arwain newid amgylcheddol yn y dyfodol ac yn amrywio o ran maint o genedlaethol i leol.**

Roedd gweithgareddau'r prosiectau'n cynnwys y canlynol: cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol; eu cynnwys mewn hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith; eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol eu hunain ynghylch materion amgylcheddol; a'u helpu i ddechrau eu mentrau cynaliadwy eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn y papurau hyn wedi'i chasglu fel rhan o'r gwerthusiad o Our Bright Future. Maent wedi cael eu hysgrifennu gan y gwerthuswyr, Economic Research Service Ltd (ERS) a Collingwood Environmental Planning (CEP), fel adnodd i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen ac i ddylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol.


Mae rhaglen Our Bright Future a'i 31 o brosiectau wedi cyflawni llawer o ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc a'r amgylchedd (edrychwch ar Bapurau Dysgu 1 a 2, Adroddiad Gwerthuso Terfynol). Roedd strwythur a dull gweithredu rhaglen Our Bright Future yn nodwedd nodedig o'r buddsoddiad. Tair elfen graidd y dull oedd: i) y portffolio o 31 o brosiectau oedd yn gweithio o dan faner Our Bright Future, ii) consortiwm o sefydliadau a ddaeth at ei gilydd i reoli a llywio'r rhaglen a iii) cynnwys swyddogaethau rhaglen canolog, sef y rheolaeth ariannol a chyswllt cyllidwyr, yn ogystal â: swyddogaeth bolisi, Rhannu Dysgu Gwella (RhDG) a'r swyddogaeth ieuenctid (gan gynnwys y Fforwm Ieuenctid).

Arweiniwyd y consortiwm o wyth sefydliad gan Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT), gyda'r aelodaeth ehangach yn adlewyrchu ffocws ieuenctid ac amgylcheddol y rhaglen. Crëwyd y portffolio o brosiectau drwy broses ymgeisio agored. Wedyn, dewisodd Panel, yn cynnwys pobl ifanc, y portffolio o brosiectau, yn cynrychioli pob rhan o'r DU ac yn cyd-fynd â nodau Our Bright Future. O blith y 31 o sefydliadau arweiniol oedd yn cyflwyno prosiectau, roedd 16 gan sefydliadau amgylcheddol ymarferol neu rai â nodau yn ymwneud â dyfodol cynaliadwy. Roedd chwech o'r sector ieuenctid a 9 o fathau 'eraill' o sefydliadau. Cyflwynwyd dau ddeg dau o'r 31 o brosiectau mewn partneriaeth ffurfiol â chyfanswm o 43 o sefydliadau eraill.

Mae'r papur hwn yn nodi'r adlewyrchu allweddol ar ddull gweithredu rhaglen Our Bright Future. Daw'r dystiolaeth o gyfweliadau â'r rhai oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen, yn ogystal â defnyddio gwaith ysgrifennu arall am reoli rhaglenni a gweithio mewn partneriaeth.

Roedd adlewyrchu'r rhai a gymerodd ran, er eu bod bob amser yn ysbryd dysgu, ar adegau, yn gwrth-ddweud ei gilydd gan amlygu bod profiad y bobl a'r sefydliadau dan sylw yn amrywiol. Felly nid yw'r papur hwn yn cyflwyno rhestr bendant o strwythurau neu ddulliau gweithredu a argymhellir, ond yn hytrach ffactorau i'w hystyried. Yn gyffredinol, nod y papur hwn yw rhannu'r hyn a ddysgwyd o gyflwyno Our Bright Future, gan gefnogi'r rhai sy'n dechrau ar raglenni yn y dyfodol, â strwythur neu ethos tebyg efallai.

Mae **Ffigur 1** ar y dde yn dangos y pynciau trafod a ddeilliodd o'r dystiolaeth. Daw'r pynciau hyn o dan dair thema: i) y model cyflwyno, ii) ymddygiad, a dull gweithredu, iii) manteision ehangach. Mae pobl ifanc wrth graidd rhaglen Our Bright Future felly maent hwy hefyd yn cael eu hystyried yn benodol.




**Ffigur 1: Y themâu a drafodir yn y papur dysgu hwn.**
Mae'r tudalennau canlynol yn cymryd pob thema yn ei thro ac yn cyflwyno'r cryfderau a'r heriau a ddarganfuwyd wrth gyflwyno Our Bright Future.

[1] Mae mathau 'eraill' o sefydliadau yn cynnwys y rheini o fewn y sector celfyddydau a threftadaeth yn ogystal ag elusennau cenedlaethol sy'n gweithio gydag oedolion a phobl ifanc agored i niwed.

# MODEL CYFLWYNO


**Mae'r adran hon yn trafod cryfderau a heriau model craidd Our Bright Future. Mae hyn yn cynnwys y dull sector ar y cyd o weithredu, yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â'r Consortiwm a'r prosiectau, a'r strwythurau a roddwyd ar waith ar gyfer cyflawni.**

## CRYFDERAU

Un o gonglfeini dull gweithredu Our Bright Future oedd dod â sefydliadau a oedd fel arfer yn gweithio gyda phobl ifanc a'r rhai â nodau amgylcheddol at ei gilydd. Un o gryfderau'r **dull sector ar y cyd hwn o weithredu** oedd y gallu i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Yn gynnar, rhannodd y rhai â phrofiad o waith ieuenctid eu harbenigedd ynghylch, er enghraifft, rheoli ymddygiad heriol a chyrraedd pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Dros amser, bu'r sefydliadau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd yn rhannu adnoddau hefyd, fel cyfrifiannell teithio gwyrdd CO2. Ar gyfer y sefydliadau ieuenctid oedd yn gysylltiedig, dywedir bod y rhaglenni gwyrdd wedi dod yn rhai o'u cynlluniau mwyaf poblogaidd. Roedd y dysgu fel arfer yn cael ei rannu drwy bynciau trafod mewn gweithdai rhanbarthol, edau trafod cymunedol ar-lein The Green Room, yn ogystal â mewn gweminarau gyda chyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb.

**Un o ddyheadau allweddol y rhaglen oedd sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu'r rhaglen. Mae'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan y rhaglen i geisio cynnwys pobl ifanc, drwy'r hyn y cyfeirir ati fel y Swyddogaeth Ieuenctid, wedi'u dangos ar y dde:**






**Ffigur 2 Swyddogaeth Ieuenctid Our Bright Future**

Mae'n amlwg bod y **dull o weithredu a arweinir gan ieuenctid** yn rhan annatod o ddull Our Bright Future o weithredu ac mae mewnbwn cynrychiolwyr ifanc yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, nid oedd heb heriau. Yn benodol, teimlai rhai bod y rhaglen yn cynnwys cyfranogiad ieuenctid yn hytrach na phobl ifanc yn arwain, ac roeddent yn cwestiynu a oedd presenoldeb pobl ifanc ar fyrddau a grwpiau wedi cael effaith wirioneddol ar gyfeiriad y rhaglen. Darparodd aelod o'r Fforwm Ieuenctid ei hadlewyrchu ei hun:

> Gellir disgwyl bod y cyfan yn ymwneud â'r bobl ifanc yn meddwl am syniadau, ond mae'n rhaid i chi gofio bod pobl ifanc wedi ymuno â'r rhaglen oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn yr amgylchedd, nid o reidrwydd oherwydd eu bod yn gwybod popeth. Mae gennych chi bobl yn gweithio ar y prosiectau, a'r amgylchedd yw eu bywyd nhw i gyd. Mae'n ddefnyddiol os ydyn nhw'n dweud 'dydych chi heb ystyried y ffactor yma na'r her yma' oherwydd pam y byddem ni? Rydw i'n meddwl ei fod yn ymwneud â thywys, nid mewn ffordd nawddoglyd, ond rydw i'n meddwl y gall fod disgwyliad afrealistig bod pobl ifanc yn arwain yn golygu bod rhaid i bobl ifanc feddwl am bopeth, yn hytrach na chael eu hysbrydoli ac wedyn cael cefnogaeth gan eraill i ystyried sut i fwrw ymlaen â hynny.
>
> **AELOD O'R FFORWM IEUENCTID**

Un maes lle dywedir bod pobl ifanc wedi cael dylanwad sylweddol yw Ceisiadau Polisi a chydgynllunio'r digwyddiad Seneddol. Hefyd, mae i ba raddau y mae dulliau llywodraethu ieuenctid wedi'u hymgorffori yn y sefydliadau dan sylw yn waddol hynod gadarnhaol i raglen Our Bright Future. Edrychwch ar Bapur Dysgu 6 Pobl Ifanc mewn Swyddogaethau Llywodraethu.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod **amrywiaeth y sefydliadau** a oedd yn ymwneud â'r consortiwm yn gryfder. Roedd y model yn cynnwys **ystod eang o sgiliau**, **safbwyntiau a rhwydweithiau** y cafodd pob sefydliad y cyfle i'w ffrwyno.

> Y diben wrth gael consortiwm yw nad oes gan un sefydliad unigol yr holl sgiliau, rhwydweithiau ac ati sydd eu hangen i gyflawni nodau. Dylai prosiect portffolio [h.y. un sy'n rhan o raglen] gael mwy o effaith.
>
> **RHANDDEILIAD MEWNOL**

Roedd cael y **cyllidwr wedi'i ymgorffori** yng ngrwpiau a phaneli consortiwm Our Bright Future yn cael ei ystyried yn unfrydol fel ffordd gadarnhaol ac effeithlon o ymgysylltu. Ystyriwyd bod eu mewnbwn yn adeiladol ac yn adlewyrchol, ac yn hynod ddefnyddiol yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19.


Ffurfiwyd partneriaethau llwyddiannus ar lefel prosiect hefyd, gan ychwanegu gwerth i bobl ifanc.

Yn gyffredinol, bu llawer o ganmoliaeth a gwerthfawrogiad o **reolaeth** grantiau hyblyg, syml ac effeithiol **gan dîm canolog y rhaglen.** Mae tîm y rhaglen wedi sefydlu prosesau effeithiol ac mae'r ymgysylltu integredig â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (TNLCF) wedi helpu'r rhaglen i fod yn effeithlon ac yn symlach.

> Roedd ein partneriaethau yn llwyddiant ysgubol ac yn ychwanegu gwerth mawr at y prosiect. Daethant ag arbenigedd ac angerdd ychwanegol i'r tîm. Gallem gydweithio'n agos i gyflawni nodau cyffredin ac i ddatrys unrhyw broblemau a wynebir ar y cyd.
>
> **ADRODDIAD PROSIECT DIWEDD GRANT**

## HERIAU

Drwy fabwysiadu model Consortiwm, ceisiodd Our Bright Future symud oddi wrth strwythur dyfarnu grantiau traddodiadol. Fodd bynnag, dywedodd rhai sefydliadau eu bod yn teimlo bod anghydbwysedd yn parhau drwy gydol y ddarpariaeth ac, i'r fath raddau fel na ellid ystyried y grŵp o sefydliadau a oedd yn rhan o Our Bright Future fel partneriaeth wirioneddol. Yn benodol, roedd teimlad bod yr Ymddiriedolaethau Natur yn "rheoli cryn dipyn" ar lefel consortiwm. I rai, roedd diffyg gweld gwerth ym mhawb a diffyg ymgysylltu dwy ffordd gwirioneddol, er gwaethaf sgyrsiau adeiladol am y pwnc.



**BARN POBL ERAILL**

Mae'r Rising Arts Agency, sy'n gymuned o bobl ifanc greadigol, wedi ysgrifennu am bartneriaethau llwyddiannus, gan nodi mai un o'r elfennau allweddol yw deall y manteision i'r ddwy ochr: "mae pob parti yn glir ynghylch yr hyn maent eisiau ei gael o'r bartneriaeth a'r hyn y gallant ei gynnig i'r bartneriaeth"

Yn achos Our Bright Future, mae'n ymddangos bod disgwyliadau anghyson ynghylch sut byddai'r rhaglen yn gweithredu, yn benodol mewn perthynas ag i ba raddau y byddai'n sefydlu partneriaeth. Roedd yr adroddiad Gwerthusiad Canol Tymor yn ystyried Our Bright Future yng nghyd-destun continwwm partneriaeth ddamcaniaethol2. Y casgliad oedd bod y rhaglen yn cydlynu gweithgarwch yn hytrach na chydweithio fel partneriaeth. Mae adborth diweddar yn awgrymu bod hyn wedi parhau yn ystod y blynyddoedd olaf o gyflawni.

Gan adlewyrchu ar lenyddiaeth rheoli prosiect yn fwy cyffredinol, roedd rhaglen Our Bright Future yn cynnwys llawer o elfennau o raglen 'gymhleth', yn fwyaf nodedig: nifer yr actorion3, graddau'r arloesi/newydd-deb ac ystod eang o nodau [4-5]. Ymhellach, gall cymhlethdod o ran **rheoli rhaglenni**, yn enwedig mewn rhaglenni hirach, arwain at weithrediadau sy'n fwy seiliedig ar brosesau, yn hytrach na dulliau cyfranogol [6-7]. Felly nid yw'r her o feithrin gwaith partneriaeth gwirioneddol a wynebir gan bartneriaid Our Bright Future yn unigryw, yn enwedig mewn rhaglenni hirach neu newydd.

Ar lefel fwy ymarferol, ystyriwyd ei bod yn haws i sefydliadau mwy gymryd rhan ar lefel consortiwm (e.e. Grŵp Llywio, Panel Gwerthuso) gan eu bod yn gallu amsugno'n well yr **adnoddau** angenrheidiol i deithio a chymryd yr amser i fynychu cyfarfodydd.

Yn gyffredinol, un adlewyrchiad cyson yw bod **diffinio swyddogaethau a dyrannu adnoddau i bartneriaid penodol** yn dod ag eglurder gwerthfawr. Gall swyddogaethau adlewyrchu gwybodaeth ac arbenigedd fel rheol, yn ogystal â rhannu pwysau cyfrifoldeb ac, yn hollbwysig, pennu disgwyliadau. Y neges graidd yw nad oedd y prosiectau'n gwybod i ba raddau y byddai disgwyl iddynt gyfrannu at weithgarwch canolog / rhaglen. Y farn oedd y dylai hyn fod wedi'i ddatgan yn gliriach o'r dechrau a'i gynnwys yng nghyllidebau a chynlluniau'r prosiectau.

Mae elfen sydd wedi'i sefydlu'n dda o reolaeth rhaglen lwyddiannus a gweithio mewn partneriaeth yn nod hawdd ei ddeall, cofiadwy, a rennir[8].

Cytunwyd ar eiriad canlyniadau Our Bright Future yn 2017, ar ôl ei fireinio ar ôl i'r portffolio gael ei ddewis er mwyn adlewyrchu'r ystod o weithgarwch yn well. Mae pob un o'r pedwar canlyniad **https://www.ourbrightfuture.co.uk/about/our-vision/** yn amlweddog ac ar y cyd maent yn cynrychioli llawer o nodau rhyng-gysylltiedig. Roedd rhai o'r unigolion a gymerodd ran yn ei chael yn anodd mynegi'n gryno beth oedd pwrpas Our Bright Future. Fodd bynnag, y nod deuol o gefnogi pobl ifanc a'r amgylchedd i ffynnu oedd sylfaen gweledigaeth Our Bright Future. Gallai datganiad cenhadaeth clir, byrrach fod wedi bod yn fuddiol.

Dros gyfnod y rhaglen, roedd rhai sefydliadau prosiect yn ei chael yn anos ymgysylltu'n ystyrlon â phrosiectau eraill, yn ogystal â gweithgareddau ar lefel rhaglen. Nododd y prosiectau hyn **gysylltiad gwannach rhwng eu hamcanion eu hunain** ac amcanion y rhaglen, gan olygu ei bod yn anodd dod o hyd i feysydd i gydweithio arnynt. Roedd hyn gan amlaf yn wir am sefydliadau nad oeddent â ffocws ar ieuenctid neu ffocws amgylcheddol yn bennaf. Mae'n ymddangos mai cysylltiad cadarn rhwng nodau sefydliadol a nodau'r rhaglen sydd wedi gweithio orau.

Yn benodol, roedd y rhai sy'n gweithio tuag at nodau cynaliadwyedd yn hytrach na thasgau amgylcheddol ymarferol, er syndod efallai, yn teimlo pellter oddi wrth amcanion y rhaglen. Mae'r prosiectau hyn wedi awgrymu y byddai mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd, y tu hwnt i gadwraeth natur, ar draws y portffolio wedi bod yn fuddiol9. Yr awgrym oedd y byddai hyn wedi cyd-fynd yn well â pholisi a thrafodaeth gymdeithasol, hyd yn oed yn ôl ar adeg creu'r rhaglen. Mae'n werth adlewyrchu bod y detholiad o'r portffolio wedi ystyried ffactorau niferus fel lleoliad a'r gallu i ehangu ac ailadrodd y gweithgarwch presennol. Ymhellach, mae cydweithio rhwng y sectorau ieuenctid ac amgylcheddol wedi 'symud ymlaen' yn sylweddol ers dechrau'r rhaglen, gyda digwyddiadau mawr a pholisi yn cynyddu llais ieuenctid fwyfwy.

> Rydw i'n credu bod y 4 canlyniad yn eithaf cymhleth. Mae llawer yn ymwneud â meithrin hyder a gwella'r amgylchedd ond nid oedd unrhyw brif nodau, na ffordd dda o gysylltu'r canlyniadau hynny â'i gilydd. Ar y cyfan, roeddwn i'n ei gael yn anodd ei ddehongli.
>
> **RHANDDEILIAD MEWNOL**

> Rydyn ni'n eistedd y tu allan i'r prosiectau eraill. Nid ein ffocws ni yw'r ffocws amgylcheddol y rhan fwyaf o'r amser. Anodd dod o hyd i dir cyffredin gyda'r prosiectau eraill. Rydw i'n disgwyl i brosiectau eraill weithio'n agos a dysgu oddi wrth ei gilydd.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**




> Gwych cael y cyllidwr yno ar gyfer cefnogaeth ac adborth ac arweiniad. Bod yn wirioneddol gydweithredol ac agored a gonest â'n gilydd yn y blynyddoedd anoddaf. [A] Parodrwydd i'r cyfan lwyddo.
>
> **RHANDDEILIAD MEWNOL**

> Amser yw'r prif gyfyngiad ar hyn, fodd bynnag, gan nad oedd gofynion y mudiad ehangach wedi'u pennu ar adeg ein cais ac ni ddywedwyd wrth yr ymgeiswyr i gynnwys unrhyw amser/costau ymgysylltu ar gyfer y rhaglen OBF gyfan yn eu ceisiadau gwreiddiol. Rydym yn profi tensiwn cyson rhwng ymgysylltu ar draws y rhaglen a blaenoriaethau eraill yn ymwneud â chyflawni prosiectau.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

[2] B O'Connell (2004) The Partnership Continuum.

[3] G. Girmscheid and C. Brockmann, "The inherent complexity of large-scale engineering projects," Project Perspectives, vol. 29, pp. 22–26, 2008.

[4] L.-A. Vidal and F. Marle, "Understanding project complexity: implications on project management," Kybernetes, vol. 37, no. 8, pp. 1094–1110, 2008.

[6] T. B. Clift and M. B. Vandenbosch, "Project complexity and efforts to reduce product development cycle time," Journal of Business Research, vol. 45, no. 2, pp. 187–198, 1999. [7]
"Complexity and Project Management: A General Overview", Complexity, cyfrol 2018, Cyfeirnod yr Erthygl 4891286, 10 tudalen, 2018. https://doi.org/10.1155/2018/4891286.

[8] E.e. Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS 002: Darparu Prosiectau.
https://www.gov.uk/government/publications/project-delivery-functional-standard.

**Mae’r adran hon yn adlewyrchu’r ffordd y mae pobl a sefydliadau wedi ymgysylltu ag Our Bright Future a sut effeithiodd hyn ar gyflawniadau.**

## CRYFDERAU

Llwyddodd gweithredoedd tîm rhaglen Our Bright Future o ddydd i ddydd, yn fwyaf penodol pa mor agored a pharod i wrando yw pobl, yn ogystal ag absenoldeb cystadleuaeth rhwng prosiectau, er gwaethaf y prosesau cystadleuol cychwynnol, i sefydlu diwylliant o onestrwydd ac ymddiriedaeth ar draws y portffolio o brosiectau.

Dywedodd y sefydliadau a gymerodd ran bod eu **cymhelliant a'u dyhead i gyflawni** wedi'i wella yn aml drwy gyfarfod i rannu syniadau neu heriau. Felly roedd digwyddiadau dysgu a thrafodaethau wedi creu budd llawer mwy na datblygu sgiliau. Yn y pen draw, ysbrydolodd y prosiectau ei gilydd a chreu hyder i gyflawni. (Edrychwch ar y canllaw arfer da RhDG **https://ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2021/04/Good-Practice-Gui de-SLI-V2-Final.pdf** ).

### BARN POBL ERAILL

Mae NESTA yn nodi: “Mae strwythurau a phrosesau yn bwysig iawn mewn partneriaethau, ond mae diwylliant yn aml yn bwysicach. Mae perthnasoedd cadarn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth nid yn unig yn hanfodol i bartneriaethau parhaol, ond hefyd maent yn arbed amser oherwydd gellir gwneud penderfyniadau'n gyflymach1[10].

## HERIAU

Bu llawer o ganmoliaeth i weithrediad effeithlon rheolaeth y rhaglen a'i swyddogaethau. Mae gan arweinyddiaeth y potensial i ysbrydoli ac ymgysylltu â thimau i gyflawni llawer mwy na'r disgwyl neu'r hyn sydd ei angen yn syml11. O fewn Our Bright Future, roedd yr ysbrydoliaeth i gyflawni ‘y tu hwnt i’r disgwyl’ yn deillio o gyfoedion a phobl ifanc, yn hytrach na thrwy arweinwyr strategol. Dywedodd rhai bod yr arweinwyr uchaf o fewn wyth sefydliad Consortiwm yn llai gweladwy ac efallai bod y math hwn o arweinyddiaeth ar goll. Mae’n ymddangos bod dau ffactor sy’n cyfrannu ar waith:

- Yn gyntaf, roedd y rhaglen wedi'i **rhagnodi ymlaen llaw** i raddau helaeth felly roedd sgôp cyfyngedig i arweinwyr ddylanwadu'n weithredol ar y Rhaglen neu newid ei chyfeiriad.
- Yn ail, y **nod** clir a nodwyd **i'r rhaglen gael ei harwain gan bobl ifanc.** Mae cynnwys pobl ifanc yng ngweithrediadau'r rhaglen yn llwyddiant allweddol, ac ar ben hynny, y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei gynnal o fewn y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y tymor hwy. Dywedodd y bobl ifanc eu hunain, er ei fod yn gadarnhaol, bod angen cefnogaeth ac arweiniad gweithredol i ddod â grymuso gan ieuenctid yn fyw. Nid yw arweinyddiaeth ieuenctid yn negyddu'r angen am reolaeth ac arweinyddiaeth strategol ac mae angen cymorth ac arweiniad i sicrhau llwyddiant. (Edrychwch hefyd ar y Papur Dysgu Llywodraethu Ieuenctid 6 **https://www.ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact/** ).

“Pan fydd unrhyw ddau ohonom yn mynd i ddigwyddiad Rhannu Dysgu Gwella (RhDG) rydym bob amser yn dod oddi yno yn siarad am bethau. Mae bob amser yn ein hysbrydoli ni i fod yn fwy creadigol neu wneud rhywbeth gwahanol”

**RHEOLWR PROSIECT**

“Mae angen arweiniad bob amser. Fe allwch chi rymuso pobl ifanc i fod yn arweinwyr, ond mae arnoch chi angen cymorth ac arweiniad i gyrraedd yno.”

**AELOD O’R FFORWM IEUENCTID**

[9] Roedd 10 o'r 31 o sefydliadau’r prosiect yn canolbwyntio ar gadwraeth, o gymharu â 6 yn canolbwyntio ar ddyfodol cynaliadwy.

[10] https://www.nesta.org.uk/blog/5-ingredients-successful-partnerships/

[11] Northouse, P. G. (2013), Leadership: theory and practice, 6ed arg., Llundain: Sage Publication

# MANTEISION EHANGACH

**Y gobaith oedd y byddai dod â sefydliadau at ei gilydd mewn rhaglen yn arwain at ganlyniadau 'gwell na'r holl elfennau unigol'. Mae'r adran hon yn adlewyrchu ar y manteision ehangach, fel dysgu ar y cyd, rhwydweithiau sy'n ehangu, gan nodi'r hyn a weithiodd yn dda a lle oedd y cyflawniadau'n brin.**



## CRYFDERAU

Mae'r adborth yn awgrymu bod tîm y rhaglen wedi llwyddo i greu ethos dysgu yn ogystal â chynhyrchu adnoddau a gweithgareddau dysgu. Mae'r dysgu ffurfiol, dan arweiniad y swyddogaeth Rhannu Dysgu Gwella (RhDG) (Dolen i'r blog RhDG

**https://www.ourbrightfuture.co.uk/2021/05/05/share-learn-improve-what-why-and-how/** ), wedi cynnwys cynhadledd flynyddol, gweithdai rhanbarthol, gweminarau a chymuned ar-lein The Green Room. Roedd dysgu ad hoc yn digwydd pan oedd timau'n cyfnewid syniadau, adnoddau a phrofiadau.

Mae dysgu gyda'n gilydd wedi gwneud cyfraniad pwysig at ymdeimlad o fod yn rhan o 'rywbeth mwy'. Nid oedd y digwyddiadau dysgu yn ymwneud â datblygu sgiliau yn unig, ond hefyd sefydlu hunaniaeth gasgliadol, darparu cymorth ar y cyd a chreu cyfle i rwydweithio. Roedd sicrhau bod y digwyddiadau'n ddigon aml (ar-lein neu wyneb yn wyneb) yn ffactor llwyddiant allweddol, gan greu cysylltiadau cadarnach bob tro.

Arweiniodd **cyfnewid gwybodaeth anffurfiol** at fanteision ymarferol i sefydliadau, fel: mabwysiadu gweithdrefnau iechyd a diogelwch gwell e.e., polisïau diogelu; rhannu syniadau am sut i ymateb i gyfyngiadau COVID 19; a chyfnewid gwybodaeth ymarferol am e.e., datrysiadau meddalwedd.

Roedd yr ymgysylltu ar-lein yn effeithiol ac yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig a oedd yn rheoli 2020 a 2021. Fodd bynnag, roedd rhyngweithio wyneb yn wyneb yn well o ran cyflawni'r buddion mwy anniriaethol fel cymorth emosiynol cyfoedion i gyfoedion, cyfeillgarwch a chymhelliant

Y gobaith yw y bydd y **rhwydwaith o bobl a sefydliadau** sydd wedi'i greu gan Our Bright Future yn waddol allweddol. Mae rhai cyfranogwyr yn adrodd eu bod yn cael sgyrsiau rheolaidd i ddysgu a rhannu, tra bo eraill yn sôn am gynlluniau ar gyfer prosiectau cydweithredol dwy/amlochrog yn y dyfodol.

Mae **amrywiaeth gweithgareddau'r prosiectau'n** cael ei ddathlu'n aml gan ei fod yn galluogi darpariaeth bwrpasol i bobl ifanc yn dibynnu ar eu hanghenion. Fodd bynnag, roedd hyn yn her wrth geisio creu hunaniaeth a rennir.

Er nad yw'n amcan neu'n nod ysgrifenedig, mae gan weithio tuag at amcanion a rennir y potensial i greu ymdeimlad **o fod yn rhan o fudiad:** grŵp o bobl a/neu sefydliadau sy'n cydgysylltu ymdrechion tuag at nodau cymdeithasol ehangach. Nododd yr adborth gan y rhai a oedd yn teimlo'n rhan o fudiad Our Bright Future amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol fel ysbrydoli eraill, teimlo balchder mawr mewn cyflawniadau ar y cyd a'r hyder i wneud mwy. Fel y nodwyd ym Mhapur Dysgu 1, Sgiliau a Chyflogadwyedd, mae magu hyder yn rhan hanfodol o gefnogi pobl ifanc i ddatblygu a chyflawni.

> Mae wedi galluogi ac annog dysgu i symud rhwng y prosiectau yn genedlaethol ac mae hyn wedi bod yn rhagorol. Rydym wedi dysgu o brofiadau'r prosiectau eraill, ac mae wedi ein helpu i fentro a rhoi cynnig ar bethau newydd oherwydd gallwn weld bod sefydliadau eraill wedi gwneud hyn. Mae ethos OBF o rannu a dysgu wedi bod mor bwerus.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Roedd yn hyfryd teimlo'n rhan o fudiad mwy. Gall y cyflawniadau fod yn fwy na'r elfennau unigol. Rydyn ni wedi gallu ysbrydoli llawer o bobl ac wedi gallu holi pobl eraill am sut i wneud pethau hefyd. Y gobaith yw creu cysylltiadau a fydd yn para y tu hwnt i'r rhaglen.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Un o bleserau OBF fu'r rhyddid i ddarparu yn lleol i weddu orau i anghenion lleol. Ond y broblem gyda hynny yw y gall pobl wneud eu penderfyniad eu hunain yn llwyr, a dim llais a hunaniaeth gyfunol. Da cael rhyddid, tybed a yw wedi bod cystal cael cymaint o wahanol bethau yn digwydd.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Y teimlad o gefnogaeth a mudiad. Mae'n rhoi mwy o ymdeimlad o gyflawniad i swyddogion y prosiect. Mae'n gwneud i chi deimlo eich bod yn cael mwy o effaith. Yn rhywle arall, ledled y DU, mae llawer mwy yn gwneud yr un peth. Pawb yn ceisio cyrraedd yr un nod. Gall addysgu pobl ifanc am hynny hefyd. Sut mae eu heffaith hwy nid yn ddim ond un llwyn eithin yn cael ei chwalu, ond erwau o eithin er budd blodau gwyllt ledled y DU.
>
> **RHEOLWR PROSIECT 2020**

Mae'r gwaith polisi ar draws y rhaglen wedi dod i'r amlwg fel rhywbeth yr oedd rheolwyr y prosiect yn arbennig yn teimlo ei fod wedi darparu ffocws ar gyfer cydweithio ac ymdeimlad o fod yn rhan o 'rywbeth mwy'. Cyd-ddatblygodd y swyddogaeth bolisi, ochr yn ochr â'r prosiectau a phobl ifanc, dri 'Chais Polisi'.

Nid oedd rhai sefydliadau, oherwydd eu rôl a'u cylch gorchwyl, wedi ymwneud ag ymgyrchu, meithrin mudiad na gweithredu cymdeithasol o'r blaen. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gadarnhaol i gefnogi pobl ifanc i godi eu llais am bynciau o'u dewis ac mae'r Rhaglen wedi llwyddo i aros yn anwleidyddol. Ystyrir bod cydgynhyrchu'r Ceisiadau Polisi wedi bod yn allweddol wrth greu perchnogaeth ar draws y rhaglen.




## HERIAU

Er bod rhai yn canmol **manteision ehangach** dull y rhaglen o weithredu, nid oedd hwn yn safbwynt cyffredinol. Disgrifiodd rhai eu hymddieithriad o weithgareddau'r rhaglen dros amser, neu nid oeddent yn cydnabod unrhyw fuddion o hunaniaeth a rennir:

Yn gyffredinol, dyma'r un sefydliadau â'r rhai a oedd yn ei chael yn anos dod o hyd i dir cyffredin gydag eraill, felly'r rhai sydd bellaf oddi wrth nodau cyffredinol Our Bright Future.

Roedd camau ymarferol yn cefnogi creu **brand**, a oedd yn ei dro yn cefnogi'r ymdeimlad o hunaniaeth a rennir. Creodd y rhaglen ganllawiau ar ddefnyddio logos, lliwiau ac ati. Mae'r arferion hyn wedi'u hen sefydlu ar gyfer rhaglenni a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, ac mae llawer o brosiectau wedi arfer cymhwyso'r egwyddorion hyn. Yn gyffredinol, mae prosiectau Our Bright Future wedi cymhwyso'r canllawiau ar ddefnyddio logo yn llwyddiannus ac yn gywir. Efallai y gellid bod wedi cyflawni hunaniaeth gyffredin well fyth drwy gyfrwng gair neu eicon cyson e.e. teitlau'r prosiectau i gyd yn cynnwys y gair 'Bright' neu debyg. Efallai y byddai hyn wedi helpu i greu cyswllt cryfach rhwng brand y prosiectau a'r rhaglen.

Yn gyffredinol, mae **swyddogaeth y polisi** wedi bod yn hollbwysig wrth greu nod cyffredin, yn enwedig ar ôl i'r ceisiadau polisi gael eu sefydlu. Ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, os oes dyhead i greu mudiad o bobl, mae'n bosibl y bydd camau gweithredu cynnar ar y cyd yn creu momentwm ac yn sefydlu diben cyffredin.

> Doedden ni ddim yn gweithio mor dda gyda'r prosiectau eraill – methu dysgu oddi wrth ein gilydd hefyd – y cyflwyno yn dra gwahanol o hyd – wedi arwain at ymddieithrio.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Teimlo fel 31 o brosiectau unigol yn hytrach nag un mudiad unigol yn symud ymlaen.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

**Mae’r bobl ifanc wrth galon y rhaglen Our Bright Future. Mae’n bwysig deall effeithiolrwydd dull y rhaglen o weithredu o safbwynt person ifanc. Mae'r adran hon yn cynnwys adlewyrchu ar effaith y dull rhaglennol o weithredu ar y canlyniadau i bobl ifanc, yn ogystal â'r strwythurau a roddwyd ar waith i hwyluso ymgysylltu ac arweinyddiaeth ieuenctid. (Edrychwch ar Bapur Dysgu 6 Llywodraethu Ieuenctid).**

> Definitely grown exponentially in confidence. Quite unusual for someone as young as we are to be given all these papers and read them and analyse them and think of the impact they’ll have. Can’t think of anything else in my life where I’ve been given the same opportunity. Youth Representative
>
> **YOUTH REPRESENTATIVE**

## CRYFDERAU

Mae pobl ifanc sydd wedi ymgymryd â swyddogaethau Cynrychiolwyr Ieuenctid wedi sôn am y cyfleoedd a grëwyd gan ddull y rhaglen o weithredu, cyfleoedd na fyddent wedi dod ar eu traws fel arall.

Tynnodd cyfranogwyr ar lefel prosiect sylw at y gwerth yr oeddent yn ei roi ar fod yn rhan o rwydwaith ehangach.

Dywedodd rheolwyr y prosiectau, er ei bod yn bosibl nad oedd y bobl ifanc yn ymwybodol bod eu prosiect yn rhan o raglen fawr, ei fod yn “fuddiol iawn” ac yn “gyffrous” i bobl ifanc. Roedd hyn oherwydd bod y rhaglen yn gwneud y canlynol:

- Darparu profiadau newydd, y digwyddiad seneddol a chyfarfod ASau yn uchafbwynt amlwg, yn ogystal ag ymweld â phrosiectau eraill.
- Darparu ffyrdd o wella sgiliau y tu hwnt i'r rhai a ddatblygwyd drwy weithgareddau’r prosiectau, fel cyflwyno i bobl ddylanwadol mewn swyddi grymus.
- Creu cyfleoedd i gwrdd â phobl eraill sydd â gwerthoedd tebyg a/neu o gefndiroedd neu ardaloedd gwahanol.
- Gwrando arnynt a dangos bod eu barn a'u hangerdd yn bwysig, ar lefel genedlaethol.
- Dangos ‘sut i’ ennyn diddordeb pobl ifanc mewn rheolaeth a llywodraethu. (Edrychwch ar Bapur Dysgu 6 Llywodraethu Ieuenctid).

Wrth i ddulliau ymgysylltu â phobl ifanc wella a dulliau gweithredu fireinio, mae'r dyhead i osod **pobl ifanc yng nghanol strwythurau** wedi dod yn gryfach fyth dros amser. Er enghraifft, wrth gyfathrebu, mae'r rhaglen yn osgoi darlunio pobl ifanc fel derbynwyr, yn lle hynny mae pobl ifanc yn amlwg ac yn weladwy ac yn ganolog i strwythurau, o ran cyflwyno a chyfathrebu hefyd.







> Pan fydd unrhyw ddau ohonom yn mynd i ddigwyddiad Rhannu Dysgu Gwella (RhDG) rydyn ni bob amser yn dod oddi yno yn siarad am bethau. Bob amser yn ein hysbrydoli i fod yn fwy creadigol neu wneud rhywbeth gwahanol.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Mae'n debyg mai'r peth mwyaf yw'r cyfle. Cael teimlo bod ein barn yn bwysig a chael amser i siarad.
>
> **CYNRYCHIOLYDD IEUENCTID**

## HERIAU

Mae llawer o bethau cadarnhaol wedi bod yn gysylltiedig â'r cynrychiolwyr ifanc sy'n rhan o grwpiau'r rhaglen, fodd bynnag, nodwyd bod y bobl ifanc dan sylw yn tueddu i fod o fath tebyg, yn benodol "**graddedigion disglair, deallus**" (Aelod o'r Grŵp Llywio). Mynegwyd hyn fel pryder gan nad yw'n gwbl gynrychioliadol o gyfranogwyr Our Bright Future. Yn gysylltiedig, efallai nad gwahodd pobl ifanc i ymuno â chyfarfodydd ffurfiol, byrddau a phaneli yw'r dull mwyaf effeithiol o sefydlu ymgysylltu gwirioneddol. Fodd bynnag, canolbwyntiodd Our Bright Future ar ymgysylltu â phobl ifanc ar "**raddfa nodedig**" (Aelod o'r Grŵp Llywio).

I rai pobl ifanc, yn enwedig y rhai â'r anghenion dysgu ac ymgysylltu mwyaf acíwt, nid oedd bob amser yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol nac yn berthnasol i osod eu prosiect yng nghyd-destun rhaglen neu fudiad Our Bright Future.

Lle mae cyfleoedd yn bodoli i gyflwyno persbectif y rhaglen, e.e., dwy weithred gyffredin, gellid cyflwyno hyn os oedd yn briodol. Fodd bynnag, ar gyfer rhai prosiectau, darparu **gofod, hyblygrwydd a chyfle i bob** person ifanc ragori ar eu telerau eu hunain oedd y prif amcan.

"Rwy'n meddwl ei fod [y Fforwm Ieuenctid] wedi bod yn dda iawn i'r cyfranogwyr. Maen nhw wedi sicrhau cysylltiad â'r gymuned ehangach. Mae mor gadarnhaol ac uchelgeisiol. Dydyn nhw ddim jyst yn cael eu cyfeirio at eu prosiect penodol yn unig bellach."

**RHEOLWR PROSIECT**

"Wrth weithio gyda [ein] cyfranogwyr mae'n aml yn anodd cyfathrebu bod y prosiect maen nhw'n ei fynychu yn rhan o fudiad ehangach Our Bright Future. Mae natur gymhleth a bregus rhai o'r cyfranogwyr sy'n mynychu [ein] prosiect wedi arwain at osod ffocws y prosiect ar ddefnyddio'r awyr agored fel lleoliad therapiwtig a ffocws ar gysylltiad â natur. Felly, weithiau gall cyflwyno gwybodaeth fanylach neu gyfleoedd am fudiad ehangach Our Bright Future fod yn amhriodol neu'n ddryslyd i'r rhai dan sylw."

**RHEOLWR PROSIECT**

## Adlewyrchu terfynol

**The programme:**

- Wedi darparu profiadau newydd, y digwyddiad seneddol a chyfarfod ASau yn uchafbwynt amlwg, yn ogystal ag ymweld â phrosiectau eraill.
- Wedi darparu ffyrdd o wella sgiliau y tu hwnt i'r rhai a ddatblygwyd drwy weithgareddau'r prosiectau, fel cyflwyno i bobl ddylanwadol mewn swyddi grymus.
- Wedi creu cyfleoedd i gwrdd â phobl eraill sydd â gwerthoedd tebyg a/neu o gefndiroedd neu ardaloedd gwahanol.
- Wedi gwrando arnynt a dangos bod eu barn a'u hangerdd yn bwysig, ar lefel genedlaethol.
- Wedi dangos 'sut i' ennyn diddordeb pobl ifanc mewn rheolaeth a llywodraethu. (Edrychwch ar Bapur Dysgu 6 Llywodraethu Ieuenctid).
- Wrth i ddulliau ymgysylltu â phobl ifanc wella a dulliau gweithredu fireinio, mae'r dyhead i osod pobl ifanc yng nghanol strwythurau wedi dod yn gryfach fyth dros amser. Er enghraifft, wrth gyfathrebu, mae'r rhaglen yn osgoi darlunio pobl ifanc fel derbynwyr, yn lle hynny mae pobl ifanc yn amlwg ac yn weladwy ac yn ganolog i strwythurau, o ran cyflwyno a chyfathrebu hefyd.

**31 o brosiectau a sefydliadau prosiect: https://www.ourbrightfuture.co.uk/projects/**

**Consortiwm:** wyth sefydliad partner dan arweiniad Yr Ymddiriedolaethau Natur, y National Youth Agency, y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, The Conservation Volunteers, Field Studies Council, Ymddiriedolaeth y Mileniwm Cymoedd Swydd Efrog, Cyfeillion y Ddaear ac UpRising. Tynnodd y partner sefydlu, The Plunkett Foundation, yn ôl o'r consortiwm yn 2017 o ganlyniad i adolygiad sefydliadol a diddymwyd vInspired yn 2018. Ymunodd Cyfeillion y Ddaear â'r consortiwm yn 2018.

**Swyddogaeth Ieuenctid:** yn darparu cefnogaeth ar gyfer cyfranogiad ieuenctid. Mae wedi cael ei gydlynu gan NYA ers 2019, ar ôl cael ei reoli'n flaenorol gan vInspired.

**Y Fforwm Ieuenctid:** prif ran y Swyddogaeth Ieuenctid, sy'n dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r portffolio at ei gilydd i gyfarfod wyneb yn wyneb yn flynyddol, yn ogystal â chynnal cyswllt rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio fforwm ar-lein. Mae aelodaeth y Fforwm yn newid bob blwyddyn. Rhoddodd y Fforwm gyfleoedd i gyfranogwyr y prosiect gwrdd â phobl ifanc eraill o'r un anian o bob rhan o'r DU ac i drafod syniadau a llywio cyfeiriad y rhaglen.

**The Green Room:** Gwefan mewngofnodi ddiogel ar gyfer cymuned Our Bright Future, sy'n darparu adnoddau, gwybodaeth a dyddiadau allweddol a chyfle i gynnal sgyrsiau.

**Ceisiadau Polisi:** Y newidiadau mewn polisi a geisir drwy weithgareddau eiriolaeth ac ymgyrchu Our Bright Future. Cafodd y diffiniad o dri chais polisi eu cydgynhyrchu gan y rhaglen, y prosiectau a phobl ifanc, a'u lansio yn 2019. Y tri chais yw:

- Cais 1: treulio mwy o amser yn dysgu ym myd natur ac am fyd natur
- Cais 2: cefnogaeth i gael swyddi amgylcheddol
- Cais 3: llunwyr polisïau, cyflogwyr, busnesau, ysgolion ac elusennau i roi mwy o sylw i anghenion pobl ifanc a'r amgylchedd.

**Rhannu Dysgu Gwella neu RhDG:** Ffrwd waith sy'n ymgysylltu â phrosiectau i nodi meysydd o angen dysgu, yn darparu cefnogaeth ac yn hwyluso rhannu gwybodaeth ar draws y rhaglen.

